Cadw Fy Nghartref - ymgynghoriad ar y gwasanaeth cymorth digartrefedd

Beth ydym yn ei wneud?
Rydym yn ymgynghori ar ffordd newydd i gefnogi pobl i osgoi digartrefedd.

Pam ydym ni'n gwneud hyn?
Rydym yn darparu ystod o wasanaethau i bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd.

Mae'r gwasanaethau hyn yn anelu at helpu pobl i osgoi digartrefedd.

Rydym yn ceisio defnyddio dull sy'n seiliedig ar anghenion i gefnogi pobl i osgoi digartrefedd. Golyga hyn ein bod yn ceisio ystyried anghenion yr unigolion yr ydym yn eu cefnogi, a chynnig cefnogaeth i'w helpu.

Mae'r gefnogaeth yr ydym yn ei chynnig yn cynnwys:

- Ceisio atal pobl rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf (gelwir hyn hefyd yn 'ymyrraeth gynnar')
- Helpu pobl i gadw eu tenantiaeth pan fyddant yn symud i lety parhaol
- Cefnogi pobl i adfer yn dilyn camddefnyddio sylweddau neu alcohol
- Cymorth gydag iechyd meddwl
- Helpu pobl i reoli eu harian

Ar hyn o bryd, darperir y gwasanaethau hyn i'r cyngor dan gontract gan dri sefydliad ar wahân. Y sefydliadau hyn yw:

1. Clwyd Alyn
2. The Wallich
3. Cymdeithas Tai Adullam

Daw pob un o'r contractau i ben yn 2024, a hoffem adolygu p'un a allwn gynnig yr un gefnogaeth i bobl mewn ffordd wahanol.

Byddai cynnig bob un o'r gwasanaethau dan un contract yn ein galluogi i helpu ystod ehangach o bobl.

Byddai cynnig bob un o'r gwasanaethau dan un contract yn ein galluogi i arbed arian.

Rhannwch eich barn â ni

Mae arnom ni eisiau clywed eich barn.

A ydych chi'n credu y gallwn gefnogi pobl mewn ffordd wahanol neu ffordd well?

Byddem yn ddiolchgar iawn pe baech cystal â llenwi'r holiadur sydd ynghlwm i'n helpu i ddeall beth sy'n bwysig pan fyddwn yn ceisio cefnogi pobl i osgoi digartrefedd.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o 2 Hydref 2023 tan 31 Hydref 2023.
Gwasanaeth cymorth Cadw Fy Nghartref - holiadur ymgynghori

Mae'r holiadur hwn yn gyfle i chi rannu eich barn â ni am y ffordd yr ydym yn cynnal y gwasanaeth cymorth Cadw Fy Nghartref i'r dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cadw Fy Nghartref yn anelu at helpu pobl i osgoi digartrefedd. Yn yr holiadur hwn, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi am beth ydych chi'n meddwl y dylem ni ei flaenoriaethu wrth ddylunio a darparu'r gwasanaeth hwn.

Gallwch ddychwelyd yr holiadur i ni mewn sawl ffordd:

- Dros e-bost - Hayley.s.jones@denbighshire.gov.uk
- Os ydych yn derbyn cymorth gennym ni ar hyn o bryd, gallwch roi eich holiadur i'ch gweithiwr cymorth
- Gallwch ddychwelyd eich holiadur i unrhyw lyfrgell neu Siop Un Alwad Cyngor Sir Ddinbych
- Gallwch bostio eich holiadur i:

Tŷ Russell, Ffordd Churton, y Rhyl LL18 3DP

Datganiad Preifatrwydd:
Bydd Cyngor Sir Ddinbych ond yn cadw data ymatebion at ddibenion penodol yr ymgynghoriad hwn, ac ni fydd eich adborth yn cael ei rannu mewn unrhyw ffordd a allai ddatgelu pwy ydych chi. Dim ond i'n helpu ni i lunio'r prosiect ymyrraeth gynnar hwn y byddwn ni'n defnyddio eich adborth. Os byddwch yn dewis darparu eich enw a'ch manylion cyswllt, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r manylion hyn i gysylltu gyda chi i drafod y prosiect ymhellach, gan gynnwys os hoffech chi gymryd mwy o ran yn natblygiad y prosiect. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn trin eich data personol, ewch i wefan y Cyngor: www.denbighshire.gov.uk/cy/preifatrwydd/preifatrwydd

Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n eich disgrifio chi orau, a/neu eich rheswm dros ymateb i'r ymgynghoriad hwn?
Os ydych chi'n teimlo bod mwy nag un categori'n berthnasol i chi, ticiwch 'arall' a darparwch ddisgrifiad cryno

Ticiwch un dewis yn unig

- ❒ Rwy'n ddigartref ar hyn o bryd. Rwy'n derbyn cefnogaeth gan y Cyngor.
- ❒ Rwyf wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol. Derbyniais gefnogaeth gan y Cyngor ar y pryd.
- ❒ Rwy'n byw yn Sir Ddinbych (ac nid wyf erioed wedi bod yn ddigartref).
- ❒ Rwy'n aelod o Gyngor Tref, Dinas neu Gymuned yn Sir Ddinbych.
- ❒ Rwy'n aelod o staff yng Nghyngor Sir Ddinbych.
- ❒ Rwy'n ddigartref ar hyn o bryd. Nid wyf yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor.
- ❒ Rwyf wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol. Nid wyf wedi derbyn cefnogaeth gan y Cyngor.
- ❒ Rwy'n Gynghorydd Sir.
- ❒ Rwy'n gweithio neu'n gwirfoddoli i sefydliad sy'n helpu pobl ddigartref.

❒ Arall (dywedwch wrthym ni)

Sut daethoch chi o hyd i'r arolwg hwn?

Ticiwch un dewis yn unig

- ❒ Derbyniais e-bost neu lythyr am yr arolwg
- ❒ Cwblheais yr arolwg gyda'm gweithiwr cefnogi
- ❒ Clywais am yr arolwg drwy'r newyddion lleol (papur newydd neu wefan newyddion)
- ❒ Clywais am yr arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, Twitter/X)

❒Rhywbeth arall (dywedwch wrthym)

Ynglŷn â'r prosiect:

Yn adran nesaf yr holiadur hwn, byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i chi am sut ddylai ein prosiect weithio.

Mae arnom ni eisiau datblygu gwasanaeth cymorth tai sy'n helpu pobl yn Sir Ddinbych sy'n ddigartref ar hyn o bryd neu wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol i symud i dŷ diogel a pharhaol. Hoffem hefyd gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi.

Y dull yr ydym yn awyddus i'w ddefnyddio yw 'Ailgartrefu Cyflym', sy'n cynnwys yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Tybir bod pawb yn 'barod am dŷ', gyda'r gefnogaeth gywir
- Mae pobl yn treulio cyn lleied o amser â phosibl mewn llety dros dro
- Pan fydd angen llety dros dro ar bobl, mae o safon uchel
- Mae pobl yn gallu cael mynediad i'r cartref iawn yn y lle iawn iddyn nhw
- I'r rhan fwyaf o bobl, cartref prif ffrwd annibynnol fydd y dull diofyn, ond efallai y bydd eraill yn dewis llety â chymorth
- Mae pobl yn gallu cael mynediad at gymorth amlasiantaeth o ansawdd uchel, wedi'i deilwra i anghenion unigol, lle bo angen.

Sut ddylai'r prosiect weithio?
Dewiswch y datganiad sy'n disgrifio'r dull yr ydych yn cytuno ag o fwyaf.

Ticiwch un dewis yn unig

❒
Dylid cynnal y gwasanaeth cymorth fel un prosiect i gefnogi pobl mewn amrywiaeth o feysydd, i'w helpu i gadw eu cartref. Gan ddefnyddio dull 'un prosiect', byddai gan unrhyw un sy'n ymofyn cymorth un gweithiwr cefnogi ar gyfer popeth.

❒
Dylid rhannu'r gwasanaeth cymorth i brosiectau llai, mwy arbenigol. Gan ddefnyddio dull 'prosiectau arbenigol', gallai unrhyw un sy'n ymofyn cymorth gael sawl gweithiwr cefnogi.

Pryd ddylem ni gynnig ein gwasanaethau?

Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o gefnogaeth ar gael yn ystod oriau swyddfa safonol, sef dydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am tan 5.00pm. Mae'n bosibl y byddwn yn ail-ddylunio'r gwasanaeth cymorth i gynnig cefnogaeth y tu allan i oriau swyddfa arferol.

Ticiwch yr **AMSER DECHRAU** yr ydych chi'n credu fyddai'n briodol ar gyfer ein gwasanaethau cymorth ar gyfer bob diwrnod o'r wythnos

Ticiwch un dewis yn unig ym mhob rhes

	6.00am	7.00am	8.00am	9.00am	10.00am
Dydd Llun	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Mawrth	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Mercher	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Iau	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Gwener	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Sadwrn	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Sul	❒	❒	❒	❒	❒

Ticiwch yr **AMSER GORFFEN** yr ydych chi'n credu fyddai'n briodol ar gyfer ein gwasanaethau cymorth ar gyfer bob diwrnod o'r wythnos

Ticiwch un dewis yn unig ym mhob rhes

	4.00pm	5.00pm	6.00pm	7.00pm	8.00pm	9.00pm	10.00pm
Dydd Llun	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Mawrth	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Mercher	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Iau	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Gwener	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Sadwrn	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dydd Sul	❒	❒	❒	❒	❒	❒	❒

Pa fath o ganllawiau a chefnogaeth ddylai'r gwasanaeth Cadw Fy Nghartref newydd eu cynnig?
Gweler isod rai o'r pethau rydym ni'n credu y gellid eu cynnwys yn y prosiect gwasanaeth cymorth newydd.

Dewiswch bob un o'r pethau rydych chi'n credu sy'n bwysig i ni eu cynnwys

- ❒ Helpu pobl i ddeall beth sy'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol (y Cyngor) ei wneud dan y gyfraith i helpu pobl sy'n ddigartref
- ❒ Helpu pobl i ddeall eu rhwymedigaethau (pethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud) unwaith y maent yn denant ac yn talu rhent mewn cartref
- ❒ Darparu cymorth â rheoli dyledion, a helpu i reoli arian yn y dyfodol
- ❒ Helpu pobl i hawlio'r budd-daliadau y maent yn gymwys iddynt
- ❒ Helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau i wella eu hiechyd meddwl a'u lles
- ❒ Helpu pobl i gael mynediad at waith, addysg, hyfforddiant a gweithgareddau cyffredin
- ❒ Gwasanaethau cyfryngu i atal digartrefedd (er enghraifft, rhwng tenant/landlord, neu rhwng aelodau teulu pan fo perthynas yn chwalu a allai adael rhywun yn ddigartref)
- ❒ Helpu pobl i gysylltu gyda'u cymunedau, i leihau unigedd
- ❒ Helpu pobl i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- ❒ Helpu pobl â hanes o droseddu i osgoi neu leihau achosion o ail-droseddu
- ❒ Cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol megis coginio, glanhau, golchi a thasgau cymhennu eraill
- ❒ Cefnogi pobl i gael cymorth gyda'u hiechyd meddwl
- ❒ Cefnogi pobl i wella eu hiechyd corfforol (e.e. bwyta'n iach, ymarfer corff lefel isel)
- ❒ Cefnogi pobl i gael mynediad at chwaraeon neu weithgareddau hamdden yn eu hardal leol
- ❒ Helpu pobl i ymdrin â phroblemau mewn perthynas â defnyddio neu ddibyniaeth ar sylweddau
- ❒ Helpu pobl i drefnu a chael mynediad at gyllid a allai helpu gyda gwaith atgyweirio, gwelliannau neu addasiadau i'r cartref er mwyn iddynt fedru parhau i fyw yno
- ❒ Darparu gwasanaeth gwrando a chymorth anfeirniadol

A oes unrhyw sefydliadau neu adnoddau (y tu allan i'r Cyngor) rydych chi'n teimlo sydd angen gweithio gyda/ochr yn ochr â'r Cyngor i sicrhau fod y prosiect Cadw Fy Nghartref yn llwyddiannus?

Nodwch: os na allwch chi feddwl am rai, gallwch adael yr adran hon yn wag.

Sut fyddwn ni'n gwybod p'un a yw'r prosiect Cadw Fy Nghartref yn gweithio?

Gweler isod rai pethau rydym ni'n credu y gallwn eu defnyddio i'n helpu i ddeall pa mor llwyddiannus yw'r prosiect.
A ydych chi'n credu bod y rhain yn ffyrdd da o fesur llwyddiant?

Ticiwch un dewis yn unig ym mhob rhes

	Ydw	Nac ydw	Ansicr / Dim barn
Mae pobl yn parhau i fod mewn llety diogel 6 mis ar ôl gadael y gwasanaeth Cadw Fy Nghartref	❒	❒	❒
Mae pobl yn teimlo bod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w sefyllfa a'u lles	❒	❒	❒
Mae pobl yn teimlo bod y prosiect wedi rhoi'r cyfarpar sydd eu hangen arnynt i osgoi digartrefedd i'r dyfodol	❒	❒	❒

A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer sut gallwn fesur llwyddiant y prosiect Cadw Fy Nghartref?

Nodwch: os nad oes gennych unrhyw awgrymiadau, gadewch yr adran hon yn wag

A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach am y prosiect Cadw Fy Nghartref?

Nodwch: os nad oes gennych unrhyw awgrymiadau, gadewch yr adran hon yn wag

Eich manylion cyswllt:

Beth yw eich enw?_____

Beth yw eich cyfeiriad?

_____

_____

_____

Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

_____

Pa un yw eich iaith ddewisol?

Ticiwch un dewis yn unig

❒ Cymraeg

❒ Saesneg (English)

❒ Iaith arall (nodwch isod)

Diolch. Rydych wedi cwblhau prif ran yr arolwg.

Os oes gennych amser, a allech ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun?
Bydd deall pwy ydych chi yn ein helpu i nodi a oes themâu cyffredin i'r ffordd yr hoffech i ni ymgysylltu, er enghraifft os oes problemau sy'n effeithio ar unrhyw cymuned ac/neu ardal ddaearyddol yn Sir Ddinbych.

Os nad ydych am gwblhau'r rhan hon o'r arolwg, gadewch hi'n wag.

Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un ateb sy'n disgrifio eich cefndir ethnig orau

Dewiswch un opsiwn yn unig

- ❒ Gwyn
- ❒ Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd
- ❒ Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd
- ❒ Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
- ❒ Cymysg - Gwyn Caribïaidd
- ❒ Unrhyw gefndir amryfal / cymysg arall
- ❒ Du - Caribïaidd
- ❒ Cefndir Du arall
- ❒ Asiaidd - Bangladesiaidd
- ❒ Asiaidd - Tsieineaidd
- ❒ Unrhyw grŵp ethnig arall
- ❒ Du - Affricanaidd
- ❒ Asiaidd - Indiaidd
- ❒ Asiaidd - Pacistanaidd
- ❒ Unrhyw gefndir Asiaidd arall
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Sut fyddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

Dewiswch un opsiwn yn unig

- ❒ Cymreig
- ❒ Saesneg
- ❒ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- ❒ Arall
- ❒ Prydeinig
- ❒ Gwyddelig
- ❒ Albanig
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Sut fyddech chi'n eich disgrifio eich hun orau?

Dewiswch un opsiwn yn unig

- ❒ Dyn
- ❒ Dynes
- ❒ Rydw i’n meddwl amdanaf fy hun mewn ffordd arall
- ❒ Gwell gen i beidio â dweud

A yw eich hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â phan gawsoch eich geni?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Pa un o'r termau canlynol sy'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol orau?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Heterorywiol/Strêt ❒ Dyn Hoyw ❒ Dynes hoyw / Lesbiaidd ❒ Deurywiol/Bi ❒ arall ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Beth yw eich oed?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ 0-15 mlwydd oed
❒ 16-24 mlwydd oed
❒ 25-34 mlwydd oed
❒ 35-44 mlwydd oed
❒ 45-54 mlwydd oed
❒ 55-64 mlwydd oed
❒ 65-74 mlwydd oed
❒ 75 mlynedd a hŷn
❒ Gwell gen i beidio â dweud

Gofalu
Ydych chi'n gofalu am neu'n helpu aelodau'ch teulu, ffrindiau, cymdogion neu bobl eraill oherwydd:

- Cyflwr neu anabledd corfforol neu iechyd meddwl hirdymor
- Problemau sy'n gysylltiedig Â henaint

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Anabledd:

Mae Adran 6(1) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan unigolyn anabledd os:
1. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
2. bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, ydych chi'n eich ystyried eich hun yn anabl?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Ydw ❒ Nac ydw ❒ Gwell gen i beidio â dweud

Beth yw eich crefydd neu gred?

Dewiswch un opsiwn yn unig

❒ Dim crefydd
❒ Mwslim
❒ Iddewiaeth
❒ Anffyddiwr
❒ Cristnogaeth
❒ Bwdhaeth
❒ Siciaeth
❒ Unrhyw grefydd arall
❒ Gwell gen i beidio â dweud

<u>Dewiswch y dewis mwyaf priodol mewn perthynas â'r Gymraeg</u>

Dewiswch un opsiwn yn unig

	Eithaf hyderus / Cymraeg iaith cyntaf	Hyderus iawn / Cymraeg ail iaith	Hyderus / Dysgu Cymraeg	Ddim yn hyderus / dechreuwr	Ddim yn hyderus o gwbl / Ddim yn dysgu Cymraeg	Does gen i ddim diddordeb
Gallu siarad Cymraeg	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Gallu darllen Cymraeg	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Gallu ysgrifennu'n Gymraeg	❒	❒	❒	❒	❒	❒
Dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru	❒	❒	❒	❒	❒	❒